# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Mehefin 2023

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr i ddod.


Yr economi a'r farchnad lafur ..... 3
- Yr Economi ..... 3
- Y Farchnad Lafur ..... 3

Addysg ..... 4
- Ysgolion ..... 4
- Addysg ôl-16 ..... 4
- Addysg uwch a chyllid myfyrwyr ..... 4

Tai ..... 5
- Cyflwr Tai a Thlodi Tanwydd ..... 5

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ..... 6
- Ystadegau ysbytai ..... 6
- Gofal sylfaenol a chymunedol ..... 6
- Gweithlu a gwariant y GIG ..... 6
- Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19) ..... 6
- Ystadegau eraill ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ..... 7

Arolwg Cenedlaethol Cymru ..... 8
- Cyhoeddiadau ..... 8

Cyfiawnder cymdeithasol ..... 9
- Tlodi ..... 9
- Costau byw ..... 9
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ..... 9
- Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin ..... 9
- Diogelwch Cymunedol ..... 9

Cydraddoldeb ..... 11

Ystadegau cydraddoldeb ... 11
Unedau tystiolaeth cydraddoldeb, hil ac anabledd ... 11
Masnach ... 13
Arolwg Masnach Cymru ... 13
Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru ... 13
Trafnidiaeth ... 14
Y Gymraeg ... 15
Cyfrifiad 2021 ... 15
Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ... 15
Amaethyddiaeth a'r amgylchedd ... 16
Amaethyddiaeth ... 16
Poblogaeth a Demograffeg ... 17
Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru ... 17
Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau ... 17
Pwnc-benodol ... 17
Twitter ... 17
Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru ... 17
Ymholiadau gweinyddol ... 17

## Yr economi a'r farchnad lafur

### Yr economi

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi cynnyrch domestig gros rhanbarthol a gwerth ychwanegol gros: 1998 i 2021 a oedd yn cynnwys amcangyfrifon blynyddol o CDG a GYG i Gymru yn 2021. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein data ar gynhyrchiant haearn a dur ar wefan StatsCymru.

Ym mis Mai gwnaethom gyhoeddi ein datganiad ynghylch dangosyddion allbynnau tymor-byr ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr 2022. Mae ein dangosfwrdd Economi Cymru mewn rhifau wedi cael ei ddiweddaru hefyd.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

### Tablau mewnbwn-allbwn

Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd blog gwadd gan yr Athro Calvin Jones Gweithio tuag at ddealltwriaeth well o economi Cymru (tablau mewnbwn-Allbwn i Gymru a gyflwynodd y prosiect i greu'r tablau a sut y gallwn eu defnyddio.

### Y farchnad lafur

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein datganiad misol, trosolwg o'r farchnad lafur, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur.

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022 sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Caiff y diweddariad nesaf ar y datganiad ystadegol hwn ei gyhoeddi ar 29 Mehefin 2023.

Mae allbynnau eraill yn ystod y misoedd diweddar wedi cynnwys y diweddariad chwarterol ynghylch pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) a oedd yn cwmpasu'r data ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2022.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru

# Addysg

## Ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data wythnosol ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir drwy gydol tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. O 3 Mai 2023 caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi'n fisol ar y dydd Mercher cyntaf o bob mis.

Cyhoeddwyd Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc: Medi 2021 i Awst 2022 ar 30 Mawrth.

Caiff prif ganlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion ym mis Ionawr 2023 eu cyhoeddi ar 25 Mai 2023, gyda datganiad pellach, taenlen dogfen agored a thablau StatsCymru yn cael eu cyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2023.

Caiff canlyniadau terfynol cyfrifiad disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ym mis Ionawr 2023 eu cyhoeddi ar 18 Gorffennaf 2023.

Ni fydd data ar gyfer asesiadau dechreuol yn yr ysgol eu casglu eleni. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw ganlyniadau ar gael ar gyfer asesiadau dechreuol, asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen nac asesiadau athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Caiff asesiadau athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 eu casglu a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Awst 2023. Mae datganiadau ystadegol blaenorol ar gael yn y gyfres Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Addysg ôl-16

Gwnaethom gyhoeddi ystadegau blynyddol ar lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio yn ddiweddar. Dylai defnyddwyr nodi bod newidiadau i'r cwestiynau ar gymwysterau yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn golygu nad oes modd cymharu amcangyfrifon ar gyfer 2022 â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r diweddariad chwarterol dros dro cyntaf ar raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 (o fis Awst i fis Hydref 2022) hefyd wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru.

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Gwnaethom gyhoeddi ein datganiad blynyddol ar Cyllid Sefydliadau Addysg Uwch yn ddiweddar a byddwn yn cyhoeddi ein bwletin blynyddol Addysg Gychwynnol i Athrawon cyn hir. Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru.

## Tai

Mae gwybodaeth reoli fisol am ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd. Cynhaliwyd gweithdy i ddarparwyr data awdurdodau lleol ym mis Mawrth i drafod sut y gellid gwella ansawdd y data ac ehangu ar yr amrywiaeth o ddata a gyhoeddir.

Er na fu unrhyw gyhoeddiadau ers mis Mawrth, bwriedir cyhoeddi allbynnau'r ystadegau tai rheolaidd canlynol ar ddechrau mis Mehefin:

- Cymorth i Brynu blynyddol (dyddiad cyhoeddi arfaethedig 1 Mehefin 2023)
- Tai cymdeithasol gwag, tai a osodwyd ac ôl-ddyledion (dyddiad cyhoeddi arfaethedig 8 Mehefin 2023)

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailddechrau cyhoeddi amcangyfrifon stoc anheddau yn sgil cyhoeddi amcangyfrifon stoc anheddau Cyfrifiad 2021. Y dyddiad cyhoeddi arfaethedig yw mis Mehefin/Gorffennaf 2023.

Yn sgil cyhoeddi Mynegai prisiau rhentu tai preifat (SYG) (Saesneg yn unig) rydym yn gweithio gyda SYG i ddeall y gwahaniaethau yn ein setiau data a arweiniodd at allbynnau gwahanol iawn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ailddechrau cyhoeddi rhenti yn y sector preifat Llywodraeth Cymru Bwriedir cyhoeddi'r data hyn erbyn diwedd yr haf.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi data'r Mynegai Prisiau Tai (Cofrestrfa Tir EF) (Saesneg yn unig) ar gyfer Cymru, a chyhoeddwyd y diweddaraf o'r rhain (ar gyfer mis Ionawr 2023) ar 19 Ebrill ochr yn ochr â data Mynegai Prisiau Tai (SYG) (Saesneg yn unig) ar gyfer gweddill y DU.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

### Cyflwr tai a thlodi tanwydd

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi'r allbwn rheolaidd canlynol:

Cymorth ar gyfer gwelliannau tai: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU

Rydym yn ystyried dichonoldeb casglu data tebyg, Addasiadau tai: dadansoddiad lefel uchel, yn lle'r allbwn hwn. Os bydd gennych unrhyw farn ar y cynnig hwn, cysylltwch â ni yn ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi dau ddangosfwrdd rhyngweithiol ar ddiwedd mis Mai; y naill yn cyflwyno data ar Dystysgrifau Perfformiad Ynni ar gyfer anheddau yng Nghymru a'r llall yn cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig i Gymru. Bydd y dangosfyrddau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

### Ystadegau ysbytai

Rydym yn parhau i wella ein diweddariadau misol ar berfformiad a gweithgaredd y GIG sy'n cynnwys data ar ofal heb ei drefnu a gofal wedi'i drefnu.

Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi dechrau darparu siartiau ar berfformiad Byrddau Iechyd Lleol yn ychwanegol at siartiau ar lefel Cymru, gan ddefnyddio data a oedd eisoes ar gael ar StatsCymru. Rydym hefyd wedi dechrau darparu ffigur addasedig i Gymru ar gyfer aros ar lwybrau agored y gellir ei gymharu'n fras â phrif fesur Lloegr drwy ddefnyddio'r fethodoleg a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Diweddariad y Prif Ystadegydd: cymharu ystadegau perfformiad y GIG ar draws y DU.

Rydym yn parhau i gyflwyno adroddiadau ar wybodaeth reoli newydd, ac i'w gwella, ynghylch nifer y cleifion ar restrau aros i gael triniaeth, perfformiad yn erbyn cynllun adfer gofal a drefnwyd a gweithio gyda chydweithwyr ledled y DU er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall cymariaethau rhwng ystadegau perfformiad y GIG ledled y DU yn well.

Cyhoeddwyd cyfres newydd o ddata ar oedi ar lwybrau gofal a brofwyd gan gleifion yn ysbytai'r GIG am y tro cyntaf hefyd.

### Gofal sylfaenol a chymunedol

Rydym yn parhau i ddiweddaru llawer o'n hallbynnau, gan ychwanegu dirnadaethau newydd atynt. Y chwarter hwn rydym wedi diweddaru'r adroddiad blynyddol ar y Gweithlu practis cyffredinol sy'n cynnwys gwybodaeth newydd ar lifau cleifion dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr, datganiad data ad hoc am nifer cleifion deintyddol newydd y GIG sy'n cael eu trin yng Nghymru a diweddariadau chwarterol ar wasanaethau deintyddol y GIG, Rhaglen Plant Iach Cymru, bwydo ar y fron.

### Gweithlu a gwariant y GIG

Roedd y chwarter hwn yn cynnwys diweddariad ar Cyllidebau Rhaglenni Gwariant blynyddol y GIG yn ogystal â diweddariadau chwarterol pellach ar Staff a gyflogir gan y GIG ac Absenoldeb oherwydd salwch y GIG. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddirnadaethau a dadansoddiadau o nodweddion staff megis oedran, rhywedd, anabledd, cenedligrwydd ac ethnigrwydd yn ôl grŵp staff a chyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff a bwrdd iechyd lleol am y tro cyntaf.

### Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19)

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel:COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig. Mae'r ddogfen hon yn egluro bod y cysylltiad rhwng haint COVID-19, salwch difrifol, cyfnodau yn yr ysbyty, a marwolaethau wedi gwanhau'n sylweddol. Mae hyn yn golygu y gallwn symud y tu hwnt i'r

ymateb brys. Yn unol â'r cynllun hwn, rydym wedi rhoi terfyn ar lawer o'n hallbynnau COVID-19 neu wedi dechrau eu cyhoeddi'n llai aml.

Rydym yn parhau i ddiweddaru rhai allbynnau allweddol er mwyn sicrhau bod data ar gael o hyd, gan gynnwys data ar y canlynol: derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty, cartrefi gofal ac absenoldeb staff y GIG a'r gyfradd hunanynysu.

Mae trosolwg llawn o ddangosyddion COVID-19 ar gael ar ein tudalen ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i ddiweddaru cynnwys arall ar COVID-19 bob wythnos ar y dangosfyrddau gwyliadwriaeth coronafeirws (COVID-19).

### Ystadegau eraill ym maes Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau i amrywiaeth o ystadegau iechyd meddwl, gan gynnwys: Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl ac amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol.

Yn ogystal, cafwyd amrywiaeth o ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: mesurau gofal llygaid a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau ar gamddefnyddio sylweddau a Mapiau Iechyd Cymru (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) (Saesneg yn unig) a Rhaglen Mesur Plant (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y wefan Ystadegau ac ymchwil ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r contract presennol i gynnal yr Arolwg Cenedlaethol, a ddelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn dod i ben â'r gwaith maes diwedd 2022-23 ym mis Mawrth 2023. Yn dilyn proses gaffael agored, rydym bellach wedi penodi Kantar Public fel y contractwr i gynnal yr arolwg yn y dyfodol. Y flwyddyn gwaith maes lawn gyntaf o dan y contract newydd fydd 2024-25 ond bydd gwaith paratoi a phrofion gwybyddol ar gwestiynau newydd yn cael eu cynnal yn ystod 2023-24.

Caiff y canlyniadau blwyddyn gyfan nesaf eu cyhoeddi yn ôl y bwriad ym mis Gorffennaf 2023 (yn seiliedig ar waith maes 2022-23), ni fydd canlyniadau ym mis Gorffennaf 2024, ac yna caiff canlyniadau blwyddyn gyfan eu cyhoeddi eto ym mis Gorffennaf 2025, yn seiliedig ar waith maes 2024-25.

### Cyhoeddiadau

Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd adroddiadau ymchwil ar bedwar o ddangosyddion cenedlaethol yr Arolwg Cenedlaethol – Cydlyniant cymunedol, Boddhad gyda'r ardal leol, Diogelwch cymunedol a dylanwadu ar benderfyniadau lleol.

Cysylltwch â ni yn arolygon@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

## Cyfiawnder cymdeithasol

### Tlodi

Rydym wedi cyhoeddi crynodebau o ddata i Gymru ar dlodi incwm cymharol, amddifadedd materol a thlodi parhaus yn ddiweddar. Mae'r data diweddaraf yn yr adroddiadau hyn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.

### Costau byw

Rydym yn parhau i gyhoeddi diweddariadau misol o ddata StatsCymru ar Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn rhoi gwybodaeth amserol am yr argyfwng costau byw.

Ym mis Mai, diweddarodd Cyngor ar Bopeth ei ddangosfwrdd data i Gymru (Cyngor ar Bopeth sy'n rhoi dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r argyfwng yn effeithio ar ei gleientiaid.

Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Yr haf hwn, byddwn yn adolygu opsiynau ar gyfer amseriad y rhifyn nesaf o'r Mynegai ar y cyd â'n Bwrdd Prosiect a'n Grŵp Cynghori. Rydym yn gobeithio dweud rhywbeth am hyn yn y diweddariad chwarterol nesaf. Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru i danysgrifio.

### Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Mae'r ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) (Saesneg yn unig) yn parhau i gael eu diweddaru.

### Diogelwch cymunedol

Rydym wrthi'n ystyried cynnwys ein datganiadau am ystadegau tân er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar hygyrchedd ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. Os ydych yn defnyddio'r cynhyrchion ystadegol a restrir isod a hoffech gael dweud eich dweud, cysylltwch ag ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

Ystadegau achosion tân ac achub: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Ystadegau achosion tân ac achub: Ebrill i Fedi 2022 (prif ddata yn unig)

Tanau glaswelltir: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Tanau llosgi bwriadol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Perfformiad awdurdodau tân ac achub: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

## Cydraddoldeb

### Ystadegau cydraddoldeb

I gyd-daro â rhyddhau data Cyfrifiad 2021 a thrawsnewid yr Arolwg o'r Llafurlu (SYG) a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth deilliedig, rydym yn bwriadu adolygu ein hallbynnau ynglŷn â chydraddoldebau sy'n defnyddio data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. O ganlyniad i drawsnewid yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan SYG, sef ffynhonnell y data, byddwn yn gohirio ein dau gyhoeddiad blynyddol ar gydraddoldeb – Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddata Hunaniaeth rywiol. Os ydych yn defnyddio'r datganiadau hyn, e-bostiwch ni yn ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru fel y gallwn eich hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Caiff ciwbiau Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol StatsCymru eu diweddaru drwy ddefnyddio data Ch3 a Ch4 2022 ddydd Iau, 25 Mai.

Mae amcangyfrifon poblogaeth diweddar ar gyfer y grwpiau a gwmpesir gan y datganiadau hyn ar gael yn ein crynodebau o bynciau Cyfrifiad 2021 – Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yng Nghymru, Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru ac Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru. Ceir data ar statws priodasol yn nhabl TS002 – statws partneriaeth gyfreithiol (Saesneg yn unig) ar wefan Nomis SYG.

Gallwch hefyd greu setiau data arbennig o Gyfrifiad 2021 drwy ddefnyddio'r adnodd Creu set ddata arbennig (SYG) (Saesneg yn unig), sy'n ei gwneud yn bosibl i gyfuno'r newidynnau uchod ymhlith eraill. Mae data amlamryweb ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd (SYG) (Saesneg yn unig) ar gael ar wahân.

### Unedau tystiolaeth cydraddoldeb, hil ac anabledd

Ffurfiwyd yr Unedau Tystiolaeth yn ôl ym mis Ionawr 2022 fel un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a ddeilliodd o bandemig COVID-19. Bellach, mae gennym dîm o 16 o ddadansoddwyr a chyhoeddwyd ein strategaeth ym  mis Hydref 2022. Mae'r strategaeth a'r blaenoriaethau yn disgrifio cwmpas yr Unedau Tystiolaeth ac yn rhestru blaenoriaethau allweddol cychwynnol. Mae'r timau yn asesu'r dystiolaeth ynglŷn â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig o ran argaeledd, ansawdd, hygyrchedd a manylder.

Ymhlith y prosiectau allweddol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd mae'r canlynol:

- Archwiliad o Ddata Cydraddoldebau Cymru: Rydym wedi cynnal cam cychwynnol yr archwiliad, lle y cofnododd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi y ffynonellau a'r allbynnau data sy'n cynnwys gwybodaeth cydraddoldeb am nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig. Yn y cam nesaf, byddwn yn ystyried newidynnau ac allbynnau'r data yn fanylach er mwyn deall yn well y bylchau mewn cydraddoldeb a nodwyd

- Canllawiau ar Gwestiynau Arolygon o Nodweddion Cydraddoldeb: Mae'r gwaith o ddatblygu safonau newydd ar gyfer arolygon yn cymryd amser, felly rydym yn paratoi canllawiau ar ein safbwynt interim ynglŷn â chwestiynau arolygon o nodweddion cydraddoldeb. Bydd y rhain ar gael i swyddogion polisi er mwyn llywio'r broses o gasglu gwybodaeth fonitro wrth roi polisïau a gwasanaethau ar waith.
- Data ar Amrywiaeth Cyrff yn y Sector Cyhoeddus: Rydym wedi ymrwymo i gwmpasu ymarfer casglu data ar nodweddion cydraddoldeb Cyrff yn y Sector Cyhoeddus a reoleiddir. Rydym wedi datblygu holiaduron i gasglu data ar amrywiaeth gan Gyrff yn y Sector Cyhoeddus a'u byrddau. Caiff yr holiaduron eu cyhoeddi ym mis Mai 2023 a chaiff asesiad cychwynnol o'r cynllun peilot ei gyhoeddi yn ystod hydref 2023.
- Y Model Cymdeithasol o Anabledd: Rydym yn ystyried sut i ddatblygu cwestiynau arolygon er mwyn i'r data adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n canolbwyntio ar rwystrau cymdeithasol, yn hytrach na namau yn unig.
- Datblygu Safon ar gyfer Cwestiynau ynglŷn â Rhyw a Rhywedd: Rydym wedi dechrau ystyried safonau wedi'u cysoni ac wedi asesu'r rhain yn erbyn gofynion polisi. Rydym wedi llunio cynllun i brofi cwestiynau amgen sy'n diwallu ein hanghenion polisi yn well ochr yn ochr â deall y rhwystrau i ddarparu'r wybodaeth hon.
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Rydym yn ystyried sut i fesur cynnydd a chanlyniadau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymarferion mapio a chysylltu “datganiadau o newid a ddymunir” â chamau gweithredu yn y cynllun a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Bydd y Grŵp Atebolrwydd Allanol yn cydweithio â'r Undeb Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, er mwyn llunio'r broses o ddatblygu dangosyddion.
- Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021: Rydym yn paratoi bwletin ystadegol sy'n canolbwyntio ar ethnigrwydd yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar ganlyniadau ym maes cyflogaeth, iechyd, addysg a thai. Rydym hefyd yn ystyried sut y gall dadansoddiad pellach o ddata Cyfrifiad 2021 yn ôl nodweddion gwarchodedig fod ar gael.

## Masnach

### Arolwg Masnach Cymru

Mae canfyddiadau trydydd Arolwg Masnach Cymru, blwyddyn gyfeirio 2020, yn dal i gael eu dadansoddi. Cafodd y dyddiad cyhoeddi disgwyliedig gwreiddiol, sef mis Mai 2022, ei ohirio tan 2023 am fod angen cynnal rhagor o wiriadau ansawdd a chyflwyno prosesau priodoli newydd i'r fethodoleg gan fod gwerth sawl blwyddyn o ddata wedi cael eu casglu erbyn hyn. Mae'r gwiriadau a'r prosesau hyn yn dal i fynd rhagddynt, ond disgwylir i'r data ar gyfer 2020 gael eu cyhoeddi ar y cyd â chanlyniadau 2021.

Daeth gwaith maes ar gyfer pedwaredd blwyddyn yr arolwg (data 2021) i ben ym mis Rhagfyr 2022, ac mae'r data wrthi'n cael eu dilysu, eu dadansoddi a'u gwirio o ran ansawdd, gyda'r nod o'u cyhoeddi yn ystod haf 2023.

Cyhoeddwyd adroddiad Rheolau Tarddiad ar 30 Mawrth 2023, gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o ymwybyddiaeth a phrofiadau busnesau o Gymru o Rheolau Tarddiad. Mae'n crynhoi canfyddiadau cyfweliadau â busnesau a sefydliad cyrff masnach.

### Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Bydd prif ganlyniadau Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 yn cael eu cyhoeddi ar 15 Mehefin 2023.

Ochr yn ochr â'r prif ganlyniadau uchod, caiff y dangosfwrdd masnach rhyngweithiol ei ddiweddaru hefyd.

Cyhoeddwyd dadansoddiad manylach o ddata Masnach nwyddau rhyngwladol 2022 Cymru ar 5 Ebrill 2023.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: ystadegau.masnach@llyw.cymru

## Trafnidiaeth

Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad blynyddol am drafnidiaeth rheilffyrdd ar gyfer 2022, a gyflwynodd wybodaeth am nifer y teithiau ar y rheilffyrdd, prydlondeb, damweiniau, marwolaethau a throseddau ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer 2022, a gyflwynodd wybodaeth am wrthdrawiadau ffyrdd, ochr yn ochr â'n dangosfwrdd rhyngweithiol, gan gynnwys dadansoddiadau megis difrifoldeb anafiadau, math o ddefnyddiwr a lleoliad gwrthdrawiadau ar fap.

Ym mis Mai 2023 gwnaethom gyhoeddi cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2021 i Fawrth 2022, yn ogystal â'n datganiad am gludiant awyr ar gyfer 2022, a gyflwynodd wybodaeth am nifer y teithwyr drwy Faes Awyr Caerdydd.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi anafusion ar y ffyrdd wedi'u cofnodi 2022, a gyflwynodd wybodaeth am wrthdrawiadau ffyrdd yn ôl math o ddefnyddiwr ffordd, oedran a rhyw.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch ag ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

# Y Gymraeg

## Cyfrifiad 2021

Yn ein barn ni, y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd tuag at wireddu ei huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gwnaethom gyhoeddi y data cyntaf o'r cyfrifiad ar y Gymraeg ar 6 Rhagfyr y llynedd, gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Ar 28 Mawrth, cyhoeddodd y SYG ei hadnodd 'Creu set ddata arbennig' (SYG) (Saesneg yn unig). Drwy'r adnodd hwn gall defnyddwyr greu eu setiau data eu hunain o holl ddata Cyfrifiad 2021, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Felly, mae cyfoeth o wybodaeth ar gael am nifer y boblogaeth 3 oed neu'n hŷn yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg (yn ogystal â sgiliau Cymraeg eraill) i Gymru, awdurdodau lleol, ardaloedd cynnyrch ehangach, wardiau etholiadol a byrddau iechyd lleol a gallwch edrych ar y data yn ôl nodweddion eraill, megis oedran, rhyw, ethnigrwydd a gwlad enedigol.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad o sgiliau yn y Gymraeg yn ôl rhai o'r nodweddion hyn mewn bwletin ystadegol ar 8 Mehefin.

Ar 8 Mehefin, byddwn hefyd yn cyhoeddi prif ystadegau ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg o fewn aelwydydd yng Nghymru, gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021. Nid yw'r data hyn wedi'u cynnwys yn adnodd “Creu set ddata arbennig” SYG, ond byddwn yn cyhoeddi'r data ochr yn ochr â'r cyhoeddiad.

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cafodd y data diweddaraf ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth eu cyhoeddi ar 25 Hydref.

Yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda SYG ar raglen waith a fydd yn ystyried ymhellach rai o'r gwahaniaethau a welwyd gennym rhwng y cyfrifiad a rhai o'n ffynonellau data eraill ar y Gymraeg, megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Er enghraifft, amcangyfrifodd y cyfrifiad fod nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru wedi lleihau rhwng 2011 a 2021, ond mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Gwnaethom gyhoeddi cynllun gwaith sy'n amlinellu'r gwaith y mae SYG Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod 2023-24 a thu hwnt i wella ein dealltwriaeth o'r prif arolygon a ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i baratoi ystadegau ynglŷn â'r Gymraeg. Ar y cyd â'r cynllun gwaith hwn, cyhoeddwyd blog gan y Prif Ystadegydd ar gydlyniaeth yr ystadegau ynglŷn â'r Gymraeg yng Nghymru.

E-bostiwch dataiaithgymraeg@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

# Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

## Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Mehefin 2023:

- Caiff Allyriadau Tiriogaethol Nwyon Tŷ Gwydr 2021 y Gweinyddiaethau Datganoledig (y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol) eu cyhoeddi (Saesneg yn unig) ar 20 Mehefin 2023.
- Caiff Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol (yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net) eu cyhoeddi (Saesneg yn unig) ar 29 Mehefin 2023.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad ar yr Atodiad Allyriadau Defnydd a ddarperir ochr yn ochr â Datganiad o Gynnydd Cyllideb Garbon 1 i gynnwys data 2020.

E-bostiwch ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Cyhoeddwyd yr ystadegau chwarterol diweddaraf ar wastraff ac ailgylchu trefol ar 26 Ebrill ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022.

## Amaethyddiaeth

Cyhoeddwyd ffigurau ar lefel Cymru ar gyfer allbwn amaethyddol ac incwm ar gyfer blwyddyn galendr 2022 ar 25 Mai.

## Poblogaeth a Demograffeg

Cyhoeddir diweddariad demograffeg chwarterol ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bostiwch: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

### Twitter

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

### Ymholiadau gweinyddol

E-bost kasadmin@llyw.cymru